

Cynllun Cyflenwi Blynyddol 2022-23

Cyngor Bro Morgannwg



Ein
gweledigaeth:
Cymunedau
Cryf gyda
Dyfodol Disglair

Ein Hamcanion

Bydd y camau y byddwn yn eu cymryd dros y flwyddyn i ddod yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein pedwar Amcan Lles a'n gweledigaeth Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair.

1. **Gweithio gyda a thros ein cymunedau**
2. **Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**
3. **Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau**
4. **Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r ffyrdd canlynol o weithio yn rhan annatod o gyflwyno'r CCB:



Cydweithio



Atal



Cyfranogiad



Integreiddio



Hirdymor

Ein Gweithredoedd

Byddwn yn cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau gyda phwyslais cryf ar y canlynol:

Prosiect Sero

- Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac ymateb i'r argyfwng natur.

Galluedd Cymunedol

- Gweithio gyda'n cymunedau a gwrando arnynt i lunio ein gweithgareddau.

Caledi

- Bodloni anghenion y rheiny sy'n profi caledi, er enghraifft anawsterau ariannol, angen am dai neu anawsterau cael cyflogaeth addas.

Gofal a Chymorth

- Diwallu anghenion ein preswylwyr mwy agored i niwed.

Trawsnewid

- Defnyddio technoleg, asedau a'n pobl i fod yn fwy arloesol a newid sut rydym yn gweithio.

Seilwaith

- Golyga hyn fuddsoddi yn ein hysgolion a'n tai a sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn y Fro i gefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y Cynllun llawn, ewch i'n gwefan : www.valeofglamorgan.gov.uk/CCB



@VOGCouncil

Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg